O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2556 (Cy. 280)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Man i'r Gogledd o Gylchfan Edlogan Way i Fan i'r De o Gylchfan Mamheilad, Torfaen) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Hydref 2012* |
| *Yn dod i rym* | *15 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Man i'r Gogledd o Gylchfan Edlogan Way i Fan i'r De o Gylchfan Mamheilad, Torfaen) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 15 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A4042, i'r gogledd o Gylchfan Edlogan Way i'r de o

Gylchfan Mamheilad, ym Mwrdeistref Sirol Torfaen a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Hydref 2012

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 158 o fetrau i'r de o ganolbwynt pont wasanaethu Race Farm, i gyfeiriad y gogledd, hyd at bwynt 240 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol cyfan Cylchfannau Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Court Farm.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 558 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt pont wasanaethu Race Farm, i gyfeiriad y gogledd, hyd at bwynt 270 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â safle blaenorol Parke Davis, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol cyfan Cylchfannau Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Court Farm.

### ATODLEN 3
### Gwahardd Beicwyr Dros Dro

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cwmbrân i gyfeiriad y gogledd hyd at bwynt wrth ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl.

ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl i gyfeiriad y gogledd hyd at bwynt wrth ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Court Farm.

### ATODLEN 4
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

i) Y darnau cyfan o'r cilfannau cyfagos ar y gerbytffordd tua'r gogledd a'r gerbytffordd tua'r de sydd rhwng Cylchfannau Pont-y-pŵl a Court Farm.

ii) Y darn cyfan o'r gilfan ar y gerbytffordd tua'r de, sydd i'r de o Gylchfan Pont-y-pŵl.